# Is-orsaf Llandyfaelog
## Llyfryn Gwybodaeth Prosiect

**Mehefin 2025**







nationalgrid


# Cefndir y Grid Cenedlaethol

**Mae National Grid yn cludo trydan yn ddiogel, yn ddibynadwy, ac yn effeithlon i'r cwsmeriaid rydym yn eu gwasanaethu – tra'n gweithio tuag at adeiladu system ynni lanach a thecach ar gyfer y dyfodol.**

Nid ydym yn cynhyrchu trydan, ond rydym yn berchen ac yn cynnal rhwydwaith trosglwyddo foltedd uchel yng Nghymru a Lloegr, gan drosglwyddo nifer fawr o drydan ar foltedd uchel o ble caiff ei gynhyrchu i ble mae ei angen.

Mae gweithredwyr rhwydwaith lleol wedyn yn ei ddanfon ar foltedd is i gartrefi a busnesau.

**O fewn Grŵp y Grid Cenedlaethol, mae pedwar endid cyfreithiol ar wahân i'w cael, pob un gyda'u cyfrifoldebau a'u rolau unigol. Trosglwyddiad Trydan y Grid Cenedlaethol (NGET) sy'n datblygu cynlluniau ar gyfer Is-orsaf Llandyfaelog.**




# Ein hymgynghoriad cymunedol

**Mae National Grid yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ei gynigion cychwynnol am is-orsaf newydd ger Llandyfaelog.**

Credwn ei bod yn bwysig clywed gan bobl sy'n byw ac yn gweithio'n lleol a rhannu gwybodaeth am ein prosiect. Ymunwch â ni mewn digwyddiad wyneb yn wyneb neu gweminar ar-lein i gwrdd â'r tîm prosiect, dysgu rhagor a lleisio'ch barn. **Y dyddiad cau ar gyfer adborth yw 11:59 ar 15 Gorffennaf 2025.**

| Lleoliad | Dyddiad ac amser |
|---|---|
| **Neuadd Gymunedol Llandyfaelog** Llandyfaelog SA17 5PA | Dydd Mercher 25 Mehefin, 1–7pm |
| **Gweminar ar-lein** (cofrestru a dolen ar gael ar ein gwefan) | Dydd Mawrth 8 Gorffennaf, 6:30–8pm |
| **Neuadd Gymunedol Llandyfaelog** Llandyfaelog SA17 5PA | Dydd Sadwrn 12 Gorffennaf, 11am–4pm |

I gael rhagor o wybodaeth a rhoi adborth ar ein gwefan ewch i: **nationalgrid.com/llandyfaelog**. (Sganiwch y cod QR i fynd yn syth i'r wefan).

Sganiwch fi





# Pam mae angen is-orsaf newydd?

**Mae National Grid yn cynnig gosod is-orsaf 400 kV newydd ger Llandyfaelog, i'r de o Gaerfyrddin, er mwyn helpu i ateb y galw cynyddol am drydan yn yr ardal.**

Rydym yn adeiladu'r is-orsaf mewn ymateb i geisiadau cysylltu mae NGET wedi'u derbyn yn Ne Cymru gan Green GEN Cymru a Dosbarthiad Trydan y Grid Cenedlaethol (NGED).

Mae dyletswydd gyfreithiol ar NGET i gysylltu cwsmeriaid â'n rhwydwaith pan ofynnir am gysylltiad. Pan nad oes gan is-orsafoedd presennol y capasiti ar gyfer maint y cysylltiad angenrheidiol, mae gofyn i ni adeiladu un newydd i ddiwallu'r angen. Yn yr achos hwn, rydym yn cynnig is-orsaf newydd ger Llandyfaelog.

NGET fydd yn berchen ar yr is-orsaf 400 kV arfaethedig ger Llandyfaelog, a nhw hefyd fydd yn ei chynnal. Bydd gofyn i'r cynhyrchwyr gael eu his-orsafoedd eu hunain ochr yn ochr â'r is-orsaf 400 kV NGET a byddant yn gyfrifol am sicrhau eu caniatâd cynllunio eu hunain. Mae pob un prosiect yn wahanol i'w gilydd ac yn gyfrifol am sicrhau caniatâd cynllunio unigol ar gyfer unrhyw seilwaith arfaethedig.

Bydd yr is-orsaf arfaethedig ger Llandyfaelog yn helpu i fodloni'r galw am drydan yn Ne Cymru.

## Beth yw is-orsaf?

Mae is-orsafoedd yn rhannau hollbwysig o'r rhwydweithiau trosglwyddo a dosbarthu ac yn galluogi trydan i gael ei drosglwyddo ar wahanol folteddau, yn ddiogel a dibynadwy.

Un o brif swyddogaethau is-orsafoedd yw trosi trydan yn wahanol folteddau. Mae angen hyn fel bod modd trawsyrru'r trydan ar draws y wlad ac yna ei ddosbarthu ar draws ein cymdogaethau lleol ac i mewn i'n cartrefi, ein busnesau a'n hadeiladau.

Mae NGET yn cymryd trydan sydd wedi'i gynhyrchu o ffynonellau pŵer ac yn ei gludo drwy ei rwydweithiau o linellau uwchben, ceblau, ac is-orsafoedd. Yna, caiff ei drawsyrru ar foltedd is drwy'r rhwydweithiau dosbarthu lleol i gartrefi a busnesau.

Esiampl o is-orsaf 400 kV, at ddibenion darlunio yn unig



# Ein cynigion

## Dyluniad yr is-orsaf

Wrth baratoi ein cais cynllunio am yr is-orsaf rydym yn cynnal asesiadau trylwyr, gan gynnwys rhai technegol, economaidd-gymdeithasol, tirweddol ac amgylcheddol. Dewiswyd ein safle arfaethedig fel y mwyaf addas yn dilyn y gwaith hwn, a oedd yn cynnwys asesiadau topograffi lleol a'r ffaith ei fod yn agos i'r llinell uwchben bresennol. Mae hyn yn ein galluogi i leihau'r effaith bosib ar y gymuned leol.

Bydd safle arfaethedig is-orsaf Llandyfaelog yn cynnwys un platfform gyda'r tair amgaefa is-orsaf o fewn ei safle: un is-orsaf 400 cilofolt (kV) a gaiff ei hadeiladu a'i gweithredu gan NGET, a dwy is-orsaf 132 kV llai a gaiff eu hadeiladu a'i gweithredu gan Green GEN Cymru a NGED yn eu tro.

Mae adeiladu un platfform i lunio'r sylfaen ar gyfer y tair is-orsaf yn galluogi defnydd mwy effeithiol o'r tir, draenio effeithiol ac yn lleihau'r traweffethiau adeiladu ar y tair is-orsaf.

Maint arfaethedig amgaefa'r is-orsaf NGET yw 155 metr x 602 metr ac mae'r platfform cyfan, gan gynnwys gofynion draenio a mynediad y ddwy amgaefa is-orsaf 132 kV, yw 260 metr x 640 metr. Gallai'r mesuriadau arfaethedig hyn newid yn dilyn arolygon ac asesiadau pellach.

Bydd yn parhau'n ofynnol i NGED a Green GEN Cymru wneud cais am ganiatâd cynllunio ar wahân i allu adeiladu eu hamgaefeydd is-orsaf arfaethedig, yn ogystal â'r cysylltiadau i'r is-orsaf 400 kV arfaethedig.

## Trafnidiaeth a mynediad

Rydym yn cydnabod y gallai traffig adeiladu yn y dyfodol effeithio ar yr ardal leol, ac rydym yn bwriadu creu cynllun rheoli traffig cynhwysfawr i leihau hyn lle bo'n bosibl. Bydd y cynllun hwn yn cael ei gyflwyno gyda'n cais cynllunio.

Rydym yn ystyried creu ffordd fynediad newydd i'r safle a fydd yn rhedeg yn gyfochrog â'r ffordd wledig bresennol i'r gogledd. Bydd hyn yn lleihau'r traweffaith ar y lôn wledig bresennol ac yn ein galluogi ni i adeiladu cyffordd benodol gyda'r A484 a ddylunnir i dderbyn traffig adeiladu'n ddiogel.

## Tirwedd a thraweffeithiau gweledol

Rydym wedi cwblhau asesiad tirwedd a gweledol o'r prosiect a fydd yn llywio strategaeth dirwedd. Nod hyn yw lleihau'r traweffaith gweledol ar y dirwedd leol, lle bo'n bosibl.

Rydym yn ceisio adborth ar ein sgrinio naturiol arfaethedig, sy'n cynnwys ardaloedd newydd o brysgoed a llwyni, yn ogystal ag atgyfnerthu llwyni presennol.

## Traweffaith ar yr amgylchedd


Mae NGET wedi ymrwymo i sicrhau budd net i fioamrywiaeth o 10%, sy'n golygu y bydd yr amgylchedd lleol yn cael ei adael mewn gwell cyflwr bioamrywiol na chyn dechrau'r prosiect. Cyflawnir hyn drwy ystod o fesurau, megis creu a gwella cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig.

Bwriedir i'n cynlluniau tirlunio ein cynorthwyo i gyflawni hyn. Ar hyn o bryd, rydym yn archwilio ffyrdd eraill o gyrraedd ein targed ac rydym yn croesawu eich adborth.

## Lefelau sŵn ac ansawdd aer

Bydd lefelau sŵn a phrofiadau ansawdd aer yn cael eu cyflwyno fel rhan o'n cais cynllunio. Bydd mesurau'n cael eu pennu i gyfyngu ar unrhyw effaith sŵn ac ansawdd aer yn ystod gwaith adeiladu yn y dyfodol a thrwy gydol y prosiect.

## Map o'r cynigion



# Beth sy'n digwydd nesaf?

**Credwn ei bod yn bwysig rhannu gwybodaeth a derbyn adborth am ein prosiect gan bobl sy'n byw a gweithio'n lleol. Bydd yr adborth yn ein hymgynghoriad o gymorth i ni lywio ein cynlluniau wrth i ni barhau i ddatblygu ein cynigion.**

Rydym wedi cyflwyno ein cais Sgrinio Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA) gerbron Cyngor Sir Gâr er mwyn adlewyrchu'r cynlluniau a'r gofynion diweddaraf ar gyfer y is-orsaf.

Byddwn yn parhau ein trafodaethau gyda thirfeddianwyr ac yn cynnal arolygon, gwaith technegol ac amgylcheddol ar y safle is-orsaf arfaethedig, ac yn y cyffiniau, er mwyn cael rhagor o wybodaeth am yr ardal a helpu i lywio ein cynlluniau. Mae'n bosibl y byddwch yn ein gweld ni, a'n contractwyr, yn gweithio ar y safle arfaethedig, ac yn y cyffiniau.

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad arall ar ein cynigion cyn ein bod yn cyflwyno cais cynllunio i Gyngor Sir Gâr yn 2026.



## Amserlen mynegol y prosiect

2025

**Mai 2025**
Cyflwyno Cais am Farn Sgrinio

**17 Mehefin - 15 Gorffennaf 2025**
Ymgynghoriad cymunedol

**Tymor yr Hydref 2025**
Ymgynghoriad statudol cyn y cais

**Chwefror 2026**
Cyflwyno cais cynllunio

**Mehefin 2027**
Dechrau adeiladu

**Hydref 2029**
Gorffen adeiladu a'r is-orsaf yn weithredol

2029

# Dweud eich dweud

**Credwn ei bod yn hynod bwysig cydweithio â phobl sy'n byw ac yn gweithio'n lleol wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau, ac rydym yn awyddus i glywed gennych chi.**

Bydd ein hymgynghoriad ar ein cynigion yn rhedeg o **17 Mehefin** tan **11:59pm 15 Gorffennaf 2025**

**Mae modd cyflwyno adborth drwy:**

- Gwblhau holiadur adborth ar-lein: **Nationalgrid.com/Llandyfaelog**
- Llenwi holiadur adborth papur a'i anfon i'r cyfeiriad Rhadbost isod - os nad ydych wedi derbyn un, ffoniwch ni ar: **0800 915 3595** a gallwn bostio un i chi.
- Anfon e-bost atom: **Llandyfaelog@nationalgrid.com**
- Ysgrifennu atom (dim angen stamp) i'r cyfeiriad: **RHADBOST NG Llandyfaelog**